

Memorandwm Esboniadol i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) (Diwygio) 2022

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Gofal Sylfaenol ac Iechyd Meddwl yn yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) (Diwygio) 2022.

Eluned Morgan AS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

13 Rhagfyr 2022

1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 ("Rheoliadau 2020") sy'n llywodraethu'r modd y darperir gwasanaethau fferyllol fel rhan o'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r diwygiadau'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau, pan fo'r llywodraeth (Gweinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol) wedi prynu brechlynnau rhag y coronafeirws, meddyginiaethau gwrthfeiol yn erbyn y coronafeirws neu frechlynnau rhag y fflui yn ganolog, ac y rhoddir y cynhyrchion hynny ar gael i fferyllfeydd cymunedol heb gost i'w defnyddio yn rhaglenni'r GIG, na fydd unrhyw dâl (neu bris nominal yn unig) yn daladwy iddynt am y cynhyrchion hynny, os yw amodau penodol wedi eu bodloni.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Dim.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Rheoliadau 2020 yn llywodraethu'r modd y darperir Gwasanaethau Fferyllol fel rhan o'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru o dan Ran 7 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ("Deddf 2006").

Seilir y cynllun ar gyfer talu am wasanaethau fferyllol a gwasanaethau fferyllol lleol yn Rhan 7 o Ddeddf 2006 ar y sail y bydd yr awdurdodau penderfynu ar gyfer tâl fferyllol yn cynnwys, fel rheol, yn y taliadau am y gwasanaethau hynny, swm sydd mewn perthynas â'r pris (ond sydd fel rheol ychydig yn fwy) na'r pris a delir gan ddarparwyr gwasanaethau pan brynasant yr eitemau presgripsiwn y maent yn eu cyflenwi neu'n eu gweinyddu i gleifion y GIG. Er hynny, mae pwerau yn adran 88 o Ddeddf 2006 sy'n galluogi dewisiadau amgen i'r trefniadau taliadau cyffredin hyn mewn rhai amgylchiadau. Gwneir y rheoliadau hyn wrth arfer y pwerau hynny yn adran 88 o Ddeddf 2006.

Diwygiwyd adran 88 o Ddeddf 2006 gan adran 2 o Ddeddf Cyflenwadau Meddygol Gwasanaethau Iechyd (Costau) 2017 a wnaeth ddarpariaeth statudol i alluogi tâl o sero mewn perthynas â "chynhyrchion meddyginiaethol arbennig" pan gaiff ei gyflenwi'n ganolog a heb gost.

Cychwynnwyd y diwygiad hwnnw gan Orchymyn Deddf Cyflenwadau Meddygol Gwasanaethau Iechyd (Costau) 2017 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2022 ar 21 Tachwedd 2022.

Diwygiwyd adran 88 ymhellach gan adran 161(2)(a) o Ddeddf Iechyd a Gofal 2022 i ymestyn cwmpas yr eithriad hwnnw i alluogi yn benodol hefyd dâl o sero (neu dâl nominal) mewn perthynas â'r canlynol pan gânt eu cyflenwi'n ganolog a heb gost:

- a) brechlynnau ac imiwneiddiadau,

- b) cyffuriau neu feddyginiaethau gwrthfeiol eraill a ddefnyddir i drin clefydau pandemig (neu glefydau pandemig posibl), hy meddyginiaethau gwrthfeiol, a
- c) chynhyrchion cysylltiedig.

Cychwynnwyd y diwygiadau pellach hynny gan Reoliadau Deddf Iechyd a Gofal 2022 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2022 ar 22 Tachwedd 2022.

Mae'r Rheoliadau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae brechlynnau rhag y coronafeirws a meddyginiaethau gwrthfeiol (a ddefnyddir i drin y coronafeirws) yn cael eu caffael yn ganolog ar hyn o bryd gan y Llywodraeth a'u cyflenwi i fferyllfeydd cymunedol heb gost i'w defnyddio yn rhaglenni'r GIG. Telir fferyllfeydd cymunedol am y gwasanaethau y maent yn eu darparu wrth weinyddu'r cynhyrchion meddyginiaethol hynny ond nid ydynt yn cael eu had-dalu am eu prynu (oherwydd eu bod wedi'u darparu am ddim). Ni chynigir unrhyw newidiadau ar hyn o bryd i'r trefniadau hynny.

Diben y rheoliadau, a'r diwygiad blaenorol i Ddeddf 2006 a wnaed gan Ddeddf Iechyd a Gofal 2022, yw dileu unrhyw ansicrwydd ac amheuaeth am sail y trefniadau tâl ar gyfer brechlynnau rhag y coronafeirws [a meddyginiaethau gwrthfeiol] a brynir yn ganolog ac a gyflenwir heb gost i fferyllfeydd cymunedol.

Gall y ffliw, fel y coronafeirws, fod yn glefyd pandemig. Ymgodymir ag ef trwy ddulliau tebyg trwy frechu a meddyginiaethau gwrthfeiol. Gall brechlynnau rhag y ffliw gael eu prynu'n ganolog gan y Llywodraeth a'u cyflenwi i fferyllfeydd cymunedol heb gost. Mae'r rheoliadau'n cefnogi trefniant tebyg i'r hyn a ddisgrifir uchod drwy alluogi yn benodol tâl o sero (neu dâl nominal) ar gyfer brechlynnau rhag y ffliw yr oedd fferyllfa wedi'u cael heb gost o stoc a brynwyd yn ganolog.

5. Ymgynghori

Ni chafwyd unrhyw ymgynghoriad ffurfiol gan fod y rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau technegol yn unig nad ydynt yn newid y trefniadau polisi presennol.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Ni chynhyrchwyd unrhyw Asesiad Effaith Rheoleiddiol i gyd-fynd â'r rheoliadau hyn gan fod y diwygiadau yn dechnegol ac ni fyddant yn cael unrhyw effaith fawr ar bolisi. Mae hyn yn cydymffurfio â'r polisi a nodir yng Nghod RIA Gweinidogion Cymru ar gyfer is-ddeddfwriaeth.